Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Eglwyswrw
# Eglwyswrw
# Crymych
# Sir Benfro
# SA41 3SN

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/02/2014**

## Cyd-destun

Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Eglwyswrw. Mae'n ysgol gymunedol o fewn y sector gwladol ym mhentref Eglwyswrw, ger tref Abergwaun yng ngogledd Sir Benfro.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng pedair ac un ar ddeg oed. Mae 114 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae'n derbyn disgyblion yn amser llawn ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.

Mae gan 6% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn cinio ysgol yn rhad ac am ddim, sydd yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol. Mae 18% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n ychydig yn is na'r ganran genedlaethol. Daw 55% o'r disgyblion o gartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf. Mae tua 2% o ddisgyblion yn dod o gefndiroedd lleiafrifol ac mae nifer bychan iawn o ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg fel Iaith ychwanegol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2007.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Medi 2010 a phenodwyd dirprwy bennaeth newydd i'r ysgol yn Ebrill 2013.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Eglwyswrw yn 2013-2014 yw £3,586. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Benfro yw £6,304 a'r lleiafswm yw £3,270. Mae Ysgol Eglwyswrw yn safle 49 o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol;
- mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws ystod eang o feysydd dysgu;
- mae bron pob disgybl yn dangos parch gwirioneddol tuag at ei gilydd, staff ac oedolion;
- mae y rhan fwyaf o'r athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu bywiog sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion; ac
- mae'r pennaeth, staff a llywodraethwyr yn gweithio'n effeithiol i feithrin ethos cynhaliol ar draws yr ysgol ble teimla'r disgyblion eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o ddata perfformiad i graffu ar gynnydd pob disgybl;
- mae gan y pennaeth weledigaeth eglur a dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol;
- mae athrawon yn cydweithio'n dda ac mae ffocws clir ar godi safonau;
- mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac mae ganddynt wybodaeth dda am weithgarwch dydd i ddydd yr ysgol; ac
- mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cyflwyno darlun clir o gryfderau'r ysgol yn ogystal â rhai agweddau sydd angen eu gwella.

Serch hyn:

- nid yw'r gwaith a osodir ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn ddigon heriol bob amser;
- nid oes gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth ddigonol o'r agweddau sydd angen eu gwella;
- nid yw rôl cydlynwyr pynciau wedi datblygu'n llawn ac nid yw arsylwadau gwersi ar hyn o bryd yn rhan o brosesau monitro ffurfiol yr ysgol; ac
- nid yw pob un o flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn cynnwys dangosyddion llwyddiant manwl na thargedau mesuradwy priodol.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig mewn ysgrifennu

A2 Sicrhau cynllunio ac addysgu mwy gwahaniaethol er mwyn darparu her effeithiol i ddisgyblion mwy abl a thalentog

A3 Cysoni'r broses o ymateb i waith disgyblion ar draws yr ysgol er mwyn iddynt ddeall pa mor dda maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

A4 Datblygu gallu llywodraethwyr i fonitro a herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol

A5 Sicrhau system drylwyr o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant sy'n defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o ddisgyblion Ysgol Eglwyswrw yn ymdrechu'n galed mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae llawer o'r disgyblion yn canolbwyntio'n dda ac yn dangos dealltwriaeth addas o'u cynnydd eu hunain. Mae'r llawer o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae'r mwyafrif yn gweithio'n effeithiol mewn parau, grŵp neu fel unigolion wrth ymateb yn frwdfrydig i dasg.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gymhwyso eu medrau llythrennedd a chyfathrebu ynghyd â'u medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r cynnydd hwn, ar draws ystod eang o feysydd dysgu, yn briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn rhugl mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae hyn yn nodwedd gref drwy'r ysgol.

Mae safonau medrau llafar llawer o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae llawer yn cyfathrebu'n hyderus gan droi'n naturiol ar lafar i ddefnyddio geirfa eang a chyfoethog. Mae llawer yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae'r mwyafrif yn darllen gyda rhuglder, cywirdeb a mynegiant da iawn. Mae llawer yn medru trafod agweddau ar lyfr yn hyderus er mwyn dangos dealltwriaeth o ddigwyddiadau a'u hoff gymeriadau.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio arddulliau gwahanol wrth ysgrifennu at ddibenion amrywiol. Mae lleiafrif o'r ysgrifenwyr mwyaf medrus yn dechrau cynnal, datblygu ac ymestyn eu syniadau wrth gyflwyno darnau dychmygus. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgrifennu'n ddigon estynedig ar draws ystod y meysydd dysgu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae safon llawysgrifen lleiafrif o ddisgyblion yn anghyson ac yn flêr ar adegau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn medru darllen yn ystyrlon gyda mynegiant da yn y ddwy iaith. Mae'r goreuon yn defnyddio goslef llais yn effeithiol i gyfleu ystyr wrth ddarllen ar goedd. Gall y mwyafrif o'r disgyblion drafod eu hoff lyfrau ac awduron, ac mae llawer yn darllen yn rheolaidd ac yn eang. Mae uwch fedrau darllen y mwyafrif o ddisgyblion yn dda ac mae eu gallu i gip ddarllen gwybodaeth ffeithiol er mwyn canfod y prif ffeithiau, yn datblygu'n briodol.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn mynegi eu syniadau, eu barnau a'u teimladau yn hyderus ar lafar. Maent yn siarad yn glir ac yn estynedig am eu gwaith a defnyddiant iaith naturiol raenus mewn amryw o sefyllfaoedd amrywiol.

Yn gyffredinol, caiff ysgrifennu y disgyblion ei strwythuro'n briodol ac mae llawer ohonynt yn ysgrifennu at bwrpasau gwahanol mewn arddulliau addas. Mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n estynedig yn Saesneg ac yn cynhyrchu gwaith o safon sydd

yn gyson dda. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddigon estynedig yn Gymraeg

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu. Mae llawer o'r disgyblion yn adio ac yn tynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau, yn haneru neu'n dyblu rhifau ac yn datrys problemau syml.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mewn gweithgareddau rhifedd ar draws ystod o bynciau yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth dda o strategaethau i ddatrys problemau rhif a geiriau sy'n mynd yn gynyddol anodd. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu dealltwriaeth o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfan a degolion ac yn darllen graddfeydd ar fapiau a graffiau syml. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso'r medrau rhifedd y maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg mewn pynciau eraill, yn arbennig mewn gwyddoniaeth a daearyddiaeth.

Mae llawer o ddisgyblion yn cynllunio eu gwaith yn ofalus ac yn mesur eu llwyddiant yn erbyn meini prawf personol a osodwyd ganddynt ar gychwyn gweithgareddau.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau a osodwyd iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig yn gyson ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Serch hyn, nid yw'r disgyblion mwyaf galluog yn cael eu herio'n ddigon cyson ac felly nid ydynt yn cyflawni cystal ag y dylent, yn enwedig yn Gymraeg.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant 5 disgwyliedig wedi bod yn weddol gyson. Yn gyffredinol, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol ar draws y meysydd dysgu yn y 50% is am y ddwy flynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion mwy abl yn neilliant 6 mewn datblygiad iaith wedi bod yn y 50% uwch am y ddwy flynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi bod yn gyson dda dros y pedair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw perfformiad disgyblion mwy abl ar lefel 5 dros amser gystal. Er bod perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg a gwyddoniaeth wedi codi i'r 50% uwch am y tro cyntaf yn 2013, mae perfformiad ar gyfer yr holl bynciau am y 5 mlynedd ddiwethaf yn amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% is.

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o fwyta ac yfed yn iach, yn ogystal â phwysigrwydd diet cytbwys ac ymarfer corff rheolaidd. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu hyder drwy gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon yn lleol a chenedlaethol, yn ogystal â gweithgareddau amrywiol eraill ar ôl ysgol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn yn ystod y gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae bron pob disgybl yn dangos parch gwirioneddol tuag at ei gilydd, staff ac oedolion ac mae hyn yn gryfder drwy'r ysgol.

Mae bron pob disgybl yn deall sut i aros yn ddiogel o fewn a thu allan i'r ysgol ac ar y we. Os oes rhywbeth yn eu poeni o bryd i'w gilydd, maent yn gwybod at bwy i droi am gymorth. Teimlai mwyafrif o'r disgyblion bod oedolion yn gwrando arnynt a bod eu llais yn bwysig. Mae'r cyngor ysgol yn gwneud cyfraniad positif i rai agweddau ar fywyd yr ysgol. Maent wedi cydweithio gyda'r pennaeth i greu rheolau i'r ardal allanol ac wedi sefydlu ardal 'ffrindiau ffyddlon' er mwyn gofalu am unrhyw ddisgyblion sydd yn anhapus neu yn unig. Mae'r disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol fel cyfrannu at weithgarwch arbed ynni ac ailgylchu'r clwb eco.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn meddu ar fedrau pwysig sy'n eu helpu i gynllunio ac i wella eu dysgu eu hunain.

Mae'r ysgol ymhlith y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg am y 4 blynedd diwethaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yn brydlon ar gyfer yr ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog sy'n cwrdd yn llawn â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Sgiliau. Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu bywiog sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion. Mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau blaenorol y disgyblion ac yn sicrhau datblygiad a chynnydd cadarn. Mae llawer o'r athrawon yn cydgynllunio ac yn rhannu arfer orau o fewn ac ar draws oedrannau. Mae'r effaith gadarnhaol hyn i'w gweld yng ngwaith llawer o'r disgyblion.

Mae'r ymweliadau addysgol a'r amrywiaeth eang o brofiadau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae llawer o'r athrawon yn rhoi sylw cynhwysfawr i ddatblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol o fewn eu cynlluniau. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd priodol i alluogi'r mwyafrif o ddisgyblion i gaffael eu medrau'n dda ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig mewn amrywiol gyd-destunau yn gyfoethog. Mae profiadau dysgu'r disgyblion yn cael eu cyfoethogi'n sylweddol trwy ymweliadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gymuned leol a diwylliant Cymru megis Craig Rhos-y-Felin a thai unnos lleol. Mae ganddynt falchder yn eu hardal a'u treftadaeth ac mae'r elfen hon yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hybu datblygiad cynaliadwy yn effeithiol drwy weithgareddau ymarferol ar dir yr ysgol sy'n cynnwys ailgylchu, compostio a gweithgarwch garddio. Mae'r cyngor eco yn weithredol ac yn rhoi arweiniad priodol i'r ysgol yn y meysydd hyn sy'n cyfrannu'n bositif at brofiadau'r disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dinasyddiaeth fyd eang yn dda a cheir cysylltiadau buddiol gydag ychydig o wledydd tramor. Mae gweithgareddau Diwrnod Ewropeaidd a masnach deg yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn effeithiol.

## Addysgu: Da

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol sy'n ysgogi'r disgyblion. Mae'r addysgu mewn llawer o wersi yn sicrhau bod y disgyblion wedi'u cymell ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu. Mae rheolaeth dosbarth yn gyson effeithiol drwy'r ysgol ac mae'r oedolion yn y dosbarth yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar.

Mae'r athrawon yn rhoi adborth cynhaliol ar lafar yn ystod gwersi a defnyddir canmoliaeth yn gyson i annog disgyblion llai hyderus. Lle ceir yr arfer orau, gwelwyd defnydd pwrpasol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu effeithiol er mwyn adnabod y camau nesaf yn y dysgu. Mewn llawer o achosion, mae'r marcio yn llyfrau'r disgyblion yn fanwl ac effeithiol. Mae'n ymateb yn adeiladol i'w gwaith ac yn eu helpu i ddeall sut i ddatblygu. Serch hynny, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol gan nad yw'r sylwadau ysgrifenedig bob amser yn nodi'n ddigon clir yr hyn sydd angen i ddisgyblion ei wneud er mwyn gwella.

Mae'r athrawon yn asesu ac yn olrhain cynnydd unigolion a grwpiau'n rheolaidd ac fe ddefnyddir y wybodaeth yn effeithiol gan y mwyafrif i gynllunio eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn cynnwys disgyblion yn briodol wrth asesu a lefelu ansawdd eu gwaith mewn llawer o wersi. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith a osodir bob amser ar gyfer disgyblion hŷn yn ddigon heriol, er enghraifft wrth ysgrifennu'n estynedig yn y Gymraeg.

Mae gan lawer o athrawon ddealltwriaeth dda o'r deilliannau disgwyliedig ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Mae prosesau mewnol yr ysgol i gymedroli asesiadau athrawon yn datblygu'n briodol.

Mae'r adroddiadau i rieni yn cwrdd â'r gofynion statudol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch y disgyblion. Mae trefniadau effeithiol i ddatblygu gwerthoedd moesol a chymdeithasol y disgyblion wedi eu gwreiddio ar draws yr ysgol. Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. a thrwy weithgareddau corfforol a chlybiau ar ôl ysgol, mae'r disgyblion yn cael amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffitrwydd ac iechyd.

Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar gan yr athrawon trwy gynnal asesiadau sylfaen trylwyr. Mae athrawon yn trefnu ymyrraeth briodol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu safonau. Mae gan y disgyblion gynlluniau addysg unigol addas sy'n cael eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r rhieni. Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau buddiol gydag asiantaethau allanol sydd yn cynnig cymorth ac arweiniad llwyddiannus ar gyfer y disgyblion hyn. Gwneir defnydd priodol o ddata perfformiad i graffu ar gynnydd pob disgybl.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyswllt effeithiol gydag ystod o wasanaethau cymorth, yn cynnwys seicolegydd addysg, nyrs ac athrawon arbenigol. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth ac arweiniad cadarn ar gael i ddisgyblion, staff a rhieni yn ôl yr angen.

Mae’r cyfnodau o gyd-addoli yn cefnogi datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad y disgyblion, eu datblygiad ysbrydol yn ogystal ag ethos yr ysgol.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned agos, groesawus a llawn gofal sy’n creu ethos cynhwysol iawn. Caiff bron pob disgybl yn yr ysgol eu hannog gan y staff i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol a rhoddir pwyslais cadarn ar hyrwyddo cydraddoldeb ymysg y disgyblion.

Mae’r ysgol ar safle braf a gwneir defnydd effeithiol o dir eang yr ysgol. Mae’r buarth a chaeau’r ysgol mewn cyflwr da a chedwir hwy yn drefnus. Mae’r ardaloedd coediog, y gerddi llysiau a’r ardal ddringo yn adnoddau gwerthfawr sy’n cael eu ddefnyddio’n effeithiol gan y staff er mwyn cynnig profiadau diddorol ac ysgogol i'r disgyblion. Mae ystod dda o offer ac adnoddau addas yn ardaloedd allanol y Cyfnod Sylfaen, sy’n cyfoethogi profiadau dysgu ac yn codi safonau cyflawniad yn briodol. Mae'r ysgol yn manteisio'n dda ar yr adnoddau sydd ar gael yn y gymuned i ychwanegu at brofiadau dysgu'r disgyblion.

Mae’r amgylchedd dysgu ym mhob dosbarth yn ddeniadol. Mae’r holl staff yn arddangos gwaith y disgyblion yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth eglur a dealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol. Mae’n arwain y staff yn llwyddiannus i ddatblygu cymuned weithgar a gofalgar sy’n cael dylanwad cadarnhaol ar gyflawniad a lles disgyblion. Mae’r pennaeth, staff a llywodraethwyr yn gweithio’n effeithiol i feithrin ethos ysgol gyfan cynhaliol ble teimla’r disgyblion eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Adlewyrchir hyn yn y safonau uchel o ran lles disgyblion.

Yn ddiweddar, mae’r tîm rheoli, sy’n cynnwys dirprwy newydd, wedi cyflwyno strategaethau i geisio codi safonau disgyblion a darparu cwricwlwm cyson ar draws yr ysgol. Mae’r pennaeth wedi adnabod agweddau pwysig ar gyfer gwella ar sail dadansoddiadau trylwyr o ddata. Mae rhestr gryno o flaenoriaethau wedi eu pennu mewn perthynas â datblygiad yr ysgol sy’n cynnwys bwriadau priodol i wella agweddau ar safonau llythrennedd. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i farnu effaith y gwaith hwn.

Mae pob aelod o staff yn cydweithio’n dda ac yn cyfrannu’n adeiladol at drafodaethau yn ymwneud â safonau disgyblion mewn cyfarfodydd staff. Mae hyn yn sicrhau bod eu cyfraniad at gynllunio strategol yn cynyddu. Mae’r gwaith hwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

Mae’r athrawon yn gweithio’n ddygn i godi safonau yn eu dosbarthiadau eu hunain. Er bod gan bob un bellach agweddau penodol i’w harwain, nid yw eu rôl fel cydlynwyr pynciau wedi datblygu’n llawn ar hyn o bryd.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau. Mae ganddynt wybodaeth dda am weithgarwch dydd i ddydd yr ysgol. Yn dilyn cyflwyniadau gan y Pennaeth ar ddata perfformiad yr ysgol, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gyrhaeddiad blynyddol y disgyblion. Fodd bynnag, nid oes gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth ddigonol o’r agweddau sydd angen gwelliant er mwyn gweithredu’n effeithiol fel cyfaill beirniadol. Yn benodol, nid yw’r corff llywodraethol yn gwybod digon am sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu ag ysgolion tebyg.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn cyflwyno darlun clir o berfformiad yr ysgol, ei chryfderau yn ogystal â rhai agweddau sydd angen eu gwella. Ar y cyfan, mae’n mynegi barnau cywir am safonau gwaith disgyblion. Serch hynny, mae’r adroddiad yn rhy ddisgrifiadol ar adegau ac nid yw’r trefniadau hunanarfarnu yn ddigon treiddgar i alluogi’r ysgol i flaenoriaethu'r elfennau pwysig sydd angen eu gwella. Nid oes defnydd digonol o arsylwadau gwersi ar hyn o bryd ac nid yw prosesau monitro ffurfiol wedi eu sefydlu’n llawn. Golyga hyn nad yw’r dystiolaeth sy’n bwydo’r adroddiad hunanarfarnu bob amser yn eglur ac nid oes cyfle i’r staff na’r llywodraethwyr ddylanwadu’n ddigonol ar gynnwys yr adroddiad.

Mae cyfleoedd priodol i rieni, disgyblion, llywodraethwyr a staff roi eu barn ar fywyd a gwaith yr ysgol sy’n cyfrannu’n dda at ddealltwriaeth arweinwyr yr ysgol o’r ddarpariaeth a safonau lles. Mae’r holiaduron ar agweddau disgyblion tuag at eu hunain a'r ysgol er enghraifft yn rhoi darlun clir i’r ysgol er mwyn gwella agwedd lles yn effeithiol.

Ar y cyfan, mae cyswllt priodol rhwng y mwyafrif o ddeilliannau’r hunanarfarnu a’r targedau sydd yn y cynllun datblygu. Mae’r cynllun wedi ei gostio’n ofalus gan nodi cyfrifoldebau staff ac ystyriaethau amser priodol ar gyfer eu cwblhau. Fodd bynnag, nid yw pob un o’r blaenoriaethau a’r gweithgareddau cysylltiedig yn cynnwys dangosyddion llwyddiant manwl na thargedau mesuradwy priodol bob tro. Mae lleiafrif o’rblaenoriaethau a osodwyd mewn cynlluniau datblygu blaenorol heb eu cwblhau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid strategol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae perthynas gadarn a chydweithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a mwyafrif y rhieni.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r cylch meithrin leol ac mae hyn yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n fuan wrth gychwyn yn yr ysgol. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgol uwchradd yn gymwys ac yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae’r cydweithio agos gyda’r ysgol uwchradd wedi arwain at drefniadau effeithiol ar gyfer safoni a chymedroli gwaith

disgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion eraill yn y clwstwr ac yn cyd-gynllunio deunyddiau ar gyfer gwella medrau disgyblion.

Mae gan yr ysgol berthynas dda ag asiantaethau allanol perthnasol a'r awdurdod lleol. Mae partneriaeth effeithiol rhwng yr ysgol a'r gymuned. Er enghraifft, mae gweithgareddau'n ymwneud â hanes a bywyd gwyllt lleol yn arwain at ddealltwriaeth dda o gynaliadwyedd. Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r nifer eang o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn dda. Mae hyn hefyd yn hyrwyddo eu hymdeimlad o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu Cymreictod yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cefnogi elusennau priodol sy'n cryfhau ymwybyddiaeth y plant o anghenion pobl eraill.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol sy'n sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgol yn cael mynediad llawn i'r Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm cCenedlaethol. Gwneir defnydd effeithiol o arbenigedd staff ac mae cynorthwywyr yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn briodol. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi hyn yn briodol. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion.

Rheolir gwariant yn ofalus gan yr ysgol a'r corff llywodraethol. Mae hyn yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau sy'n ymateb i anghenion y disgyblion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli eu hadnoddau'n effeithiol. Mae'r corff llywodraethol a'r is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod yn rheolaidd, a gyda chefnogaeth swyddog cyllid yr awdurdod, maent yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Maent yn gwneud penderfyniadau cyllidebol yn ôl anghenion a blaenoriaethau'r ysgol.

O ystyried y deilliannau da, a monitro'r cyllid yn effeithiol, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae canlyniadau disgyblion ar y deilliant disgwyliedig (feilliant 5 neu'n uwch) yn nangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ychydig yn is na chyfartaledd yr ysgolion eraill yn y teulu. Mae cyflawniadau disgyblion mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol hefyd ychydig yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion. Mae cyflawniadau disgyblion mewn datblygiad personol a chymdeithasol ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae cyrhaeddiad y disgyblion ar y lefelau uwch (deilliant 6) yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r teulu ym mhob maes dysgu.

O'u cymharu ag ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae cyflawniadau disgyblion mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol yn gosod yr ysgol yn y 50% isaf am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae cyflawniad mewn datblygiad personol a chymdeithasol wedi codi o'r 25% isaf yn 2012 i'r 25% uchaf yn 2013. Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefelau uwch yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol. Mae cyflawniad mewn datblygiad personol a chymdeithasol yn gosod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyrhaeddiad y disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) yn uwch na chyfartaledd y teulu ym mhob pwnc.

Mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel yn uwch na'r disgwyl (lefel 5) yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn Cymraeg a gwyddoniaeth ond yn is na'r teulu mewn Saesneg a mathemateg.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol yn y lefel ddisgwyliedig (Lefel 4) wedi bod yn y 50% uwch am y 5 mlynedd ddiwethaf ar gyfer pob pwnc ac eithrio mathemateg. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol yn y 25% uwch am y 5 mlynedd diwethaf.

Mae cyrhaeddiad mewn Cymraeg a Saesneg dros y 2 flynedd diwethaf yn amrywio o'r 50% uwch i'r 25% uchaf. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi disgyn eleni o'r 25% uchaf i'r 50% is.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol hyd 2013 ar lefel 5 yn amrywio o'r 25% isaf i'r 50% is ym mhob pwnc. Mae cynnydd graddol wedi bod dros amser ond mae'r ysgol yn parhau yn y 25% isaf ar gyfer mathemateg a'r 50% is ar gyfer Saesneg. Mae perfformiad yr ysgol eleni wedi codi i'r 50% uwch mewn Cymraeg a gwyddoniaeth.

Nid oes patrwm arwyddocaol yng ngyflawniad y bechygyn a'r merched dros gyfnod. Dros amser, mae disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal neu'n well na rhai nad ydynt.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 62 | 59<br>95% | 3<br>5% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 62 | 58<br>94% | 4<br>6% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 62 | 60<br>97% | 2<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 61 | 61<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 62 | 60<br>97% | 2<br>3% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 60 | 56<br>93% | 4<br>7% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 62 | 62<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 62 | 60<br>97% | 2<br>3% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 61 | 61<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 61 | 60<br>98% | 1<br>2% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 61 | 46<br>75% | 15<br>25% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 78% | 22% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 59 | 52<br>88% | 7<br>12% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 57 | 31 | 23 | 2 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 54% | 40% | 4% | 2% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 57 | 43 | 13 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 75% | 23% | 0% | 2% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 56 | 42 | 12 | 2 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 75% | 21% | 4% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 56 | 36 | 17 | 2 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 64% | 30% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 57 | 31 | 23 | 1 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 54% | 40% | 2% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 57 | 35 | 18 | 0 | 0 | 4 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 61% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 57 | 38 | 18 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 67% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 56 | 20 | 26 | 5 | 1 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 36% | 46% | 9% | 2% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 57 | 36 | 15 | 3 | 0 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 63% | 26% | 5% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 57 | 35 | 19 | 1 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 61% | 33% | 2% | 0% | | |
| | | 60% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 55 | 39 | 16 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 55 | 24 | 23 | 2 | 0 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 44% | 42% | 4% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 57 | 20 | 30 | 7 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 35% | 53% | 12% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 57 | 27<br>47%<br>62% | 20<br>35%<br>31% | 5<br>9%<br>4% | 4<br>7%<br>2% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 56 | 22<br>39%<br>44% | 25<br>45%<br>39% | 5<br>9%<br>7% | 1<br>2%<br>2% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 57 | 31<br>54%<br>56% | 21<br>37%<br>39% | 2<br>4%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 52 | 23<br>44%<br>42% | 13<br>25%<br>34% | 3<br>6%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 13 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 57 | 30<br>53%<br>53% | 26<br>46%<br>38% | 0<br>0%<br>5% | 0<br>0%<br>1% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| The school is well run. | 56 | 27<br>48%<br>61% | 21<br>38%<br>33% | 2<br>4%<br>3% | 3<br>5%<br>1% | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Anthony John Bate | Arolygydd Tîm |
| Ruth Elaine Rhydderch | Arolygydd Lleyg |
| David Watkin Bundock | Arolygydd Cymheiriaid |
| Shan Harries | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.